

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gymraeg Y Fenni

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar lle mae disgyblion yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda. Mae bron bob un yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn mynychu'n rheolaidd.

Mae'r pennaeth a'r dirprwy, yn canolbwyntio'n effeithiol ar wella cynnydd, lles a dysgu disgyblion mewn amgylchedd Cymreig. Mae arwyddair yr ysgol, sef: 'Dysgwn fel teulu, tyfwn fel cymuned', yn fyw yn ei bywyd bob dydd ac yn sicrhau bod disgyblion yn hapus, yn dysgu, yn gofalu am ei gilydd, ac yn falch o fod yn Gymry Cymraeg. Maent yn sicrhau bod lles disgyblion yn gadarn, yn ddiogel, a'u bod yn ddysgwyr chwilfrydig a hyderus, sy'n teimlo eu bod yn perthyn i gymuned deuluol yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gwricwlwm diddorol sy'n cefnogi disgyblion i fod yn ddysgwyr cyflawn sy'n cyfarwyddo'n dda â'u hardal leol, Cymru a'r byd. Trwy ddilyn y cwricwlwm hwn, mae staff yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn hoffi dysgu ac yn gwneud cynnydd sydd o leiaf yn dda yn eu hamrywiol fedrau, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd, a digidol. Un o gryfderau'r ysgol yw ei dull o annog bron bob disgybl, beth bynnag eu cefndir ieithyddol, i siarad Cymraeg yn hyderus a chynyddol gywir. Mae gan y rhan fwyaf o athrawon ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion. Er hyn, nid ydynt bob amser yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a gwneud pethau drostyn nhw eu hunain.

Mae'r pennaeth a llywodraethwyr wedi rheoli adnoddau'r ysgol yn briodol dros nifer o flynyddoedd. Er hyn, ar hyn o bryd, maent yn wynebu sefyllfa o orwariant sylweddol. Maent bellach wedi dechrau cydweithio â'r awdurdod lleol i fynd i'r afael â hyn.

Mae arweinwyr yn cyfathrebu'n rheolaidd gyda rhieni, ond nid yw eu dulliau o gyfathrebu â nhw bob amser yn ddigon clir na chyson. O ganlyniad, nid oes gan yr holl rieni ddealltwriaeth briodol o'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol o ddydd i ddydd.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud 3 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella**

**A1 Ymateb yn ddiymdroi i ddiffyg ariannol yr ysgol**

**A2 Addasu dulliau addysgu i wella medrau dysgu annibynnol disgyblion**

**A3 Cysoni dulliau cyfathrebu arweinwyr gyda rhieni**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.**




Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/11/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.